



## Casglu Adborth

Mae'r papur hwn yn ceisio sicrhau ein bod yn cael cymaint o adborth ag y gallwn o ddigwyddiadau/gweithgareddau Gŵyl Amgueddfeydd Cymru er mwyn inni gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Mynychwyr

### Yr arolwg

Mae arolwg Gŵyl Amgueddfeydd Cymru yn ceisio casglu proffil y sawl sy'n mynychu digwyddiadau Gŵyl Amgueddfeydd Cymru, sut y clywsant am ddigwyddiadau/gweithgareddau a pha mor fodlon yr oeddent â'r digwyddiadau y buont ynddynt. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau wedi'u codio a phenagored er mwyn inni allu casglu gwybodaeth ymchwil feintiol ac ansoddol.

### Dosbarthu'r arolwg

Dyma rai awgrymiadau i sicrhau ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth ag y gallwn o bob un o'r digwyddiadau a gynhelir yn ystod Gŵyl Amgueddfeydd Cymru:

- Gofalwch fod yr arolygon i'w gweld ac ar gael i fynychwyr. Gellid eu rhoi i bobl wrth iddyn nhw gyrraedd a/neu eu gadael yn y dderbynfa a'r caffi.
- Os yw'n ddigwyddiad eistedd, rhowch yr arolygon ar y seddi fel y gall mynychwyr eu llenwi unwaith y daeth y digwyddiad i ben.
- Os yn bosib, dirprwywch rolau i staff, trefnwch fod staff ar gael i gynorthwyo gyda llenwi arolygon a gosodwch darged realistig ar gyfer nifer yr arolygon wedi'u llenwi y gobeithiwch eu cael.
- Darparwch beniau/pensiliau rhag ofn nad yw rhai mynychwyr wedi dod â rhai gyda nhw.
- Gofalwch fod mynychwyr yn gwybod y gallent ennill gwobr am llenwi'r arolwg – cynhelir cystadleuaeth rad ac am ddim ac mae cyfle i ennill 3 x £25 o dalebau'r Stryd Fawr.
- Gellir dosbarthu'r arolwg hefyd trwy eich presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol. Os ydych yn ymddangos ar Twitter a Facebook cynhwyswch y ddolen i'r arolwg yn eich neges, ynghyd â'r geiriau "os buoch yn ein digwyddiad Gŵyl Amgueddfeydd Cymru gofynnir ichi roi adborth trwy wasgu ar y ddolen. Gallech ennill gwerth £25 o dalebau'r Stryd Fawr (mae 3 gwobr ar gael)".

- Gofalwch fod pobl yn gwybod beth i'w wneud â'u harolwg wedi iddynt ei lenwi (trowch at yr awgrymiadau isod).

### **Casglu'r arolygon a lanwyd**

Unwaith rydych wedi annog pobl i lenwi'r arolygon, mae'n bwysig eich bod yn eu casglu i'w dadansoddi. Gall ymwelwyr ddychwelyd eu harolygon ar ôl eu llenwi trwy –

- Eu rhoi'n ôl i aelodau o staff. Yna dylai staff eu rhoi mewn llestr penodedig.
- Eu postio mewn llestr yn eich amgueddfa – rhowch flwch neu rywbeth tebyg (ag arno frandio/logo yr Ŵyl os yn bosib) ger yr allanfa i'ch amgueddfa/yn eich caffi/yn y dderbynfa.
- Cofiwch gofio eich bod hefyd yn casglu unrhyw rai a gewch ar-lein.

### **Adborth o'r arolwg**

Bydd yr holl arolygon sy'n cael eu llenwi a'r canlyniadau'n rhan o'r adroddiad gwerthuso cyffredinol ar gyfer Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Os yn bosib, byddwch hefyd yn cael y canlyniadau ar gyfer eich amgueddfa chi er mwyn ichi gael yr ymateb i'ch digwyddiadau wrth ichi gynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **Dulliau eraill o gael adborth gan fynychwyr**

Allwch chi gasglu adborth gan fynychwyr mewn ffyrdd eraill -

- Llyfr sylwadau – rhowch nhw mewn lle gweladwy yn ystod Gŵyl Amgueddfeydd Cymru ac anogwch fynychwyr i wneud sylwadau
- Sylwadau llafar – os yw ymwelwyr yn gwneud sylw ichi gofalwch eich bod yn ei gofnodi trwy ei ysgrifennu i lawr neu trwy ofyn iddynt ei roi yn eich llyfr sylwadau

### **Lleoliadau**

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn casglu data o bob amgueddfa sy'n cymryd rhan. Yn dilyn Gŵyl Amgueddfeydd Cymru byddwn yn danfon atoch y ddolen i'r arolwg staff sy'n gobeithio casglu cymaint o wybodaeth ag y bo modd.

Gofalwch eich bod yn casglu gwybodaeth allweddol i'w hadrodd yn ôl e.e.

- Nifer yr ymwelwyr fu yn eich digwyddiadau/arddangosfeydd
- Sylwadau cyffredinol a wnaed gan ymwelwyr (fel y nodwyd uchod)
- Lefel yr ymateb ar gyfryngau cymdeithasol
- Sylw ar y cyfryngau

### **Manylion Cyswllt**

Cofiwch gysylltu os hoffech gael unrhyw wybodaeth arall –

GwylAmgueddfeydd@four.cymru / 01970 300001